Cadeirydd: Mr Alun John
Is-gadeirydd: Mr Brian Thomas
Ysgrifennydd: Mrs Bethan Davies
Is-ysgrifennydd: Mrs Helen Edwards
Trysorydd: Mr Alun Jones
Is-drysorydd: Mrs Ann Parry
Aelodau'r pwyllgor:
Mr Merfyn Hughes
Dr. S.K. Abbas
Mrs Geinor Jones
Mrs Janette Arnold

Croesawn ddau blentyn newydd i'r ysgol, Glen a Craig Colgate. Gobeithio y byddant yn hapus a chartrefol yn ein cwmni.

Gweithgareddau i'r plant lleiaf fu yng nghyfarfodydd yr Urdd yn ystod hanner cyntaf y tymor. Cafwyd taith natur, dawnsio gwerin a phlannu bylbiau yn rhan o'r gweithgareddau. Tro'r plant hŷn fydd hi o hyn i'r Nadolig - bu nifer ohonynt hwy yng ngala nofio'r Urdd yn ddiweddar gan wneud eu rhan yn ganmoladwy iawn. Bydd rhai ohonynt yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf cyn bo hir. Bu'r bechgyn hwythau yn chwarae pêl-droed pump bob ochr yr Urdd a chael hwyl reit dda.